

Teitl y Swydd:
Yn adrodd wrth:
Yn gyfrifol am:

Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
Alison Woods, Cyfarwyddwr Gweithredol
Arbenigwyr llawrydd a chontractwyr creadigol allanol

Mae NoFit State yn gwmni syrcas gyfoes sydd ag enw da yn rhyngwladol. Bob blwyddyn, mae'r cwmni'n mynd â chynyrchiadau ar daith yn ei Babell Fawr ac yn perfformio mewn theatrau a safleoedd awyr-agored ledled Prydain a thramor. Yng nghartref y cwmni yng Nghaerdydd, cynhelir rhaglen o ddsbarthiadau a phrosiectau proffesiynol a chymunedol trwy gydol y flwyddyn a darperir cyfleusterau ar gyfer nifer o gwmnïau ac artistiaid annibynnol sy'n ymweld.

Mae'r cwmni'n dod i gysylltiad â llu o gymunedau amrywiol, gyda thua 120,000 o bobl yn cymryd rhan yn un o'n rhaglenni rheolaidd neu'n ymweld ag un o'n cynyrchiadau teithiol bob blwyddyn.

Mae Nofit State yn sefydliad creadigol, deinamig sy'n ffynnu wrth wynebu her ac sydd bob amser yn ceisio dysgu a gwella ym mhopeth a wna. Cawn ein hysbrydoli gan y pethau rhyfeddol y gall pobl gyffredin eu cyflawni ac rydym yn dathlu'r nerth cymunedol a ddaw o fywyd teithiol traddodiadol y syrcas.

A ninnau'n gwmni teithiol rhyngwladol sydd â'n gwreiddiau mewn cenedl ddwyieithog, mae NoFit State yn gwmni amlieithog ac amlddiwylliannol sy'n dathlu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.

Diben

Cadarnhau a meithrin enw da'r cwmni a'i broffil. Sicrhau bod pob rhan o'r rhaglen yn cyrraedd targedau presenoldeb a chyfranogiad trwy ddatgan pwy ydym a beth rydym yn ei wneud a thrwy hyrwyddo ein gwaith wrth bartneriaid cyflwyno, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a rhanddeiliaid ar draws pob platfform.

Cyfrifoldebau Allweddol

Marchnata

- Datblygu a chynnal ymgyrch farchnata fywiog, greadigol a phwrpasol ar gyfer pob prosiect a rhan o'r rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd print, ymgyrchoedd hysbysebu ac ymgyrchoedd yn y wasg, defnydd llawn o'r cyfryngau cymdeithasol ac offer ar-lein yn ogystal â thechnegau marchnata traddodiadol y syrcas

- Rheoli'r gwaith o ddatblygu deunyddiau wedi'u dylunio, gan ddefnyddio gweithwyr llawrydd yn achlysurol i greu cynnwys grymus a deniadol ar gyfer sioeau, prosiectau, dosbarthiadau ac unrhyw ran arall o waith y cwmni, i'w addasu a'i rannu ar draws nifer o sianeli a llwyfannau, gan gyrraedd cynifer o'r cynulleidfaoedd targed ag y bo modd.
- Datblygu cyfres gref a deniadol o ddeunyddiau hyrwyddo mewn gwahanol gyfryngau i hyrwyddo'r cwmni a'i holl waith i bartneriaid a rhanddeiliaid posibl, yn cynnwys partneriaid cyflwyno, noddwyr, cydgynhyrchwyr, partneriaid comisiynu, cyfranwyr ac arianwyr posibl
- Sicrhau bod brand a hunaniaeth y cwmni'n cael eu cynnal mewn ffordd gref a chydlynol gan ddefnyddio lleisiau, offer marchnata a phlatfformau amrywiol
- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu paratoi mewn ieithoedd priodol a bod yr holl ddeunyddiau marchnata ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru yn hollol ddwyieithog

Datblygu Cynulleidfaoedd

- Cryfhau strategaeth y cwmni i ddatblygu cynulleidfaoedd a chydweithio gyda nifer o bartneriaid i gyflawni'r strategaeth honno
- Cryfhau perthynas y cwmni gyda chynulleidfaoedd a chyfranogwyr trwy sicrhau cyfleoedd amrywiol, yn aml, iddynt ymwneud â'r cwmni yn ychwanegol at ein hymweliadau â'u hardal nhw – yn cynnwys cylchlythyrau ac e-daflenni rheolaidd – yn ogystal â chynnal gwefan y cwmni a gwneud y defnydd gorau o nifer o gyfryngau cymdeithasol
- Casglu a dadansoddi data mewnol a data meincnodi am gynulleidfaoedd o sawl ffynhonnell er mwyn rhoi gwybodaeth effeithiol am gynulleidfaoedd a fydd yn sicrhau ein bod ni, neu ein partneriaid cyflwyno, yn creu ymgyrchoedd marchnata sydd mor effeithlon ag y bo modd.
- Monitro deilliannau a chanlyniadau'r penderfyniadau hyn er mwyn dangos ein bod wedi cyrraedd targedau datblygu cynulleidfaoedd o ran amrywiaeth a chyrhaeddiad.
- Datblygu strategaeth gysylltiadau cyhoeddus newydd er mwyn cryfhau proffil a chyrhaeddiad y cwmni ymhlith pobl sy'n defnyddio'r cyfryngau prif ffrwd a chyfryngau amgen

Rheoli Gwybodaeth ac Adnoddau

- Hybu gwaith y cwmni gyda'r cyfryngau newydd a'i bresenoldeb ar-lein, gan fod yn ymwybodol o dueddiadau'r cyfryngau cymdeithasol ac addasu ffordd y cwmni o'u defnyddio yn ôl yr angen
- Hybu dealltwriaeth y cwmni o weithgareddau yn y sector, dulliau arloesol o weithio, gwaith marchnata llwyddiannus, gwaith datblygu cynulleidfaedd a thechnegau cyfathrebu er mwyn cryfhau perfformiad y cwmni
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cofnodi a gofalu am archifau'r cwmni
- Datblygu system rheoli asedau digidol y cwmni i'w defnyddio yn fewnol ac yn allanol
- Sicrhau bod gan y cwmni systemau dibynadwy ar gyfer casglu data a systemau ymateb cadarn y gellir eu gwerthuso a'u monitro'n effeithiol
- Gofalu bod y cwmni'n aelod o rwydweithiau cenedlaethol a rhyngwladol ac yn cymryd rhan ynddynt

Nodweddion personol a phroffesiynol

Mae gennych feddwl creadigol cadarn ac rydych wrth eich bodd yn cyfathrebu ac yn perswadio pobl. Mae gennych synnwyr gweledol cryf a dawn ieithyddol. Rydych yn mwynhau gwranddo a dysgu, a deall beth sy'n ysgogi ac yn ysbrydoli pobl eraill. Rydych yn hoffi llwyddo ac yn mwynhau her. Mae gennych reddfau cryf ac rydych wedi dysgu ymddiried ynddynt – rydych yn herio'ch dealltwriaeth trwy fynd ati mewn ffordd drwyadl i gasglu data a thystiolaeth. Rydych yn agored i syniadau newydd ac yn cael eich hybu i adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol.

Mae'r celfyddydau'n rhan bwysig o'ch bywyd ac rydych yn awyddus i sicrhau bod cynifer o bobl ag y bo modd yn cael cyfle i brofi gwaith NoFit State ac i gael eu hysbrydoli a'u herio ganddo. Rydych yn awyddus i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn tîm bychan o gydweithwyr; rydych yn mwynhau cydweithio a rhoi syniadau ar waith.

Rydych yn rhoi pwyslais mawr ar fanylder a chywirdeb yn eich gwaith; mae sicrhau canlyniad da yn bwysicach i chi na gorffen tasgau, ac rydych yn deall ei bod yn rhaid gwneud gwaith yn brydlon. Mae gennych feddwl clir ac rydych yn gallu blaenoriaethu a rheoli eich amser yn dda.

| Sgiliau, nodweddion a phrofiad hanfodol | Sgiliau, nodweddion a phrofiad dymunol |
|---|---|
| O leiaf dair blynedd o brofiad mewn swydd debyg yn sector y celfyddydau | Profiad blaenorol ym myd y syrcas gyfoes |

| | |
|---|--|
| neu sector greadigol | |
| Wedi profi eich bod yn gallu ysbrydoli eraill ac ennyn eu brwdfrydedd trwy gyfathrebu ysgrifenedig mewn Saesneg | Y gallu i ysbrydoli eraill ac ennyn eu brwdfrydedd trwy gyfathrebu ysgrifenedig mewn ieithoedd eraill – yn enwedig Cymraeg neu Ffrangeg |
| Wedi profi eich bod yn gallu amrywio cywair a geirfa yr iaith lafar ac ysgrifenedig yn dibynnu ar y cyd-destun a'r diben | Gallu siarad Cymraeg yn hyderus |
| Wedi profi eich bod yn gallu deall grym lluniau a defnyddio gwahanol ddulliau a deinameg gweledol ar gyfer gwahanol gyd-destunau a dibenion | Profiad o baratoi deunyddiau at wahanol ddibenion: hyrwyddo cwmni mewn rhyw sector; paratoi deunyddiau ar gyfer partneriaid cyflwyno a chomisiynu; a marchnata perfformiadau i gynulleidfaoedd |
| Wedi profi eich bod yn gallu defnyddio meddalwedd dylunio, CRM a systemau rheoli cynnwys, a dulliau marchnata trwy ebost | Gwybodaeth weithiol dda o PatronBase, Drupal, Adobe Creative Suite |
| Wedi profi eich bod yn gallu defnyddio offer dadansoddi a rheoli'r cyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys Google Analytics | |
| Wedi profi eich bod yn gallu defnyddio prosesau dylunio ac argraffu | |
| Wedi profi eich bod yn gallu rheoli sesiynau tynnu lluniau a chomisiynu fideos hyrwyddo yn llwyddiannus | Wedi profi eich bod yn gallu golygu lluniau a fideos, eu gwella a'u haddasu |
| Wedi profi eich bod yn gallu rheoli cyllidebau ymgyrchoedd a thrafod gydag isgontractwyr a chyflenwyr er mwyn cael y gwerth gorau am arian | |

Rheolaeth Linell

Byddwch yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol
Byddwch yn gyfrifol am nifer o gontractwyr a chyflenwyr llawrydd
Byddwch yn cydweithio ag aelodau eraill o'r tîm craidd

Telerau ac Amodau

Mae hon yn swydd lawn-amser a pharhaol yn dilyn cyfnod prawf o dri mis. Mae NoFit State yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o ran tâl gwyliau, tâl salwch ac absenoldeb mamolaeth a thadolaeth. Mae NoFit State yn ymdrechu i fod yn

gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n bennaf yng Nghaerdydd ond bydd angen iddo/iddi ymweld â chynyrchiadau ar daith yn rheolaidd. Bydd angen gweithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau weithiau. Nid yw'r cwmni'n talu tâl goramser ond gellir cymryd amser yn lle oriau ychwanegol a weithir.

Cyflog: £22,000 - £25,000 yn dibynnu ar brofiad.

Amserlen

Rhaid i geisiadau ddod i law erbyn 9am dydd Llun 14 Ionawr ac fe gynhelir y cyfweiliadau yng Nghaerdydd yr wythnos wedyn.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech ragor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y swydd hon, gallwch ebostio alison@nofitstate.com

Ceisiadau

Os hoffech ymgeisio, llanwch y ffurflen gais a'r ffurflen Cyfle Cyfartal sydd ynghlwm ac ebostio'r ddwy gyda CV a llythyr yn amlinellu pam yr ydych yn addas ar gyfer y swydd i jobs@nofitstate.org